# N am Nadolig (2)

Plentyn 1: **N** am y newyddion da am eni'r Iesu mawr;
Dywedodd y proffwydi y deuai ef i lawr.

Plentyn 2: **A** am yr angel a dd'wedodd am ei ddod
I Fethlehem Jwdea, gan roddi iddo glod.

Plentyn 3: **D** am y doethion a ddaeth at faban Mair,
Gan roi anrhegion iddo, sef thus a myrr ac aur.

Plentyn 4: **O** am oleuni ar y mynyddoedd draw,
Pan welodd y bugeiliaid y llewyrch ar bob llaw.

Plentyn 5: **L** am lawenydd a gawn wrth ddilyn Crist;
Pan fyddwn yn ei gwmni, does neb yn teimlo'n drist.

Plentyn 6: **I** am Iesu a ddaeth i'r byd o'r nef;
Dod er mwyn dweud am gariad Duw wnaeth ef.

Plentyn 7: **G** am Dduw yn galw, a galw mae o hyd
Ar bawb i weithio drosto yn ddyfal yn y byd.

Pawb: Gadewch i ninnau ddathlu
Pen-blwydd ein hannwyl Iesu
Drwy foli Duw a charu dyn
'Run fath â Iesu Grist ei hun.